OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 1387 (Cy.137)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio (Cyfarwyddiadau Diogelwch Gwladol a Chynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *23 Mai 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *Mehefin 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer ei bwerau o dan adran 321(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i haddaswyd gan adran 321B(3) o'r Ddeddf honno) (**1**), paragraff 6A(3) o Atodlen 3 i Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (fel y'i haddaswyd gan baragraff 8(3) o'r Atodlen honno)(**2**) a pharagraff 6A(3) o'r Atodlen i Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 (fel y'i haddaswyd gan baragraff 8(3) o'r Atodlen honno)(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio (Cyfarwyddiadau Diogelwch Gwladol a Chynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 7 Mehefin 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "yr awdurdod cyfarwyddo" ("the directing authority") yw'r Cynulliad Cenedlaethol neu, yn ôl y digwydd, yr Ysgrifennydd Gwladol;

ystyr "y brif Ddeddf" ("the principal Act") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

ystyr "cyfarwyddyd" ("direction") yw cyfarwyddyd a roddir gan yr awdurdod cyfarwyddo o dan–

(a) adran 321(3) o'r brif Ddeddf;

(b) paragraff 6(6) o Atodlen 3 i'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig; neu

(**1**) 1990 p.8. Mewnosodwyd is-adrannau (5) i (12) o adran 321, ac adran 321B, gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5), adrannau 80(1) ac 81(1) yn y drefn honno.

(**2**) 1990 p.9. Mewnosodwyd paragraffau 6A ac 8(3) gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, adrannau 80(3) ac 81(2) yn y drefn honno.

(**3**) 1990 p.10. Mewnosodwyd paragraffau 6A ac 8(3) gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, adrannau 80(4) ac 81(3) yn y drefn honno.

(c) paragraff 6(6) o'r Atodlen i'r Ddeddf Sylweddau Peryglus;

mae i "cyfathrebu electronig" a "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communication" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000(**4**);

ystyr "cynrychiolydd penodedig" ("appointed representative") yw person a benodir gan Gwnsler Cyffredinol y Cynulliad Cenedlaethol o dan–

(a) adran 321(5) neu (6) o'r brif Ddeddf fel y'i haddaswyd gan adran 321B(2) o'r Ddeddf honno;

(b) paragraff 6A(1) neu (2) o Atodlen 3 i'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig fel y'i haddaswyd gan baragraff 8(2) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno; neu

(c) paragraff 6A(1) neu (2) o'r Atodlen i'r Ddeddf Sylweddau Peryglus, fel y'i haddaswyd gan baragraff 8(2) o'r Atodlen i'r Ddeddf honno;

mae "dogfen" ("document") yn cynnwys ffotograff, map neu blan;

ystyr "y Ddeddf Adeiladau Rhestredig" ("the Listed Buildings Act") yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;

ystyr "y Ddeddf Sylweddau Peryglus" ("the Hazardous Substances Act") yw Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990;

ystyr "y partïon" ("the parties") yw–

(a) y person sy'n gwneud yr archiad am gyfarwyddyd; a

(b) y cynrychiolydd penodedig;

ystyr "person yr effeithir arno" ("affected person") yw'r person a gaiff ei atal, drwy gyfarwyddyd, rhag gwrando neu archwilio tystiolaeth gaeedig mewn ymchwiliad lleol os rhoddir cyfarwyddyd;

mae "sylwadau ysgrifenedig" ("written representations") yn cynnwys dogfennau ategol;

ystyr "tystiolaeth gaeedig" ("closed evidence") yw tystiolaeth sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd; ac

ystyr "tystiolaeth gaeedig bosibl" ("potentially closed evidence") yw tystiolaeth y mae archiad am gyfarwyddyd wedi'i wneud mewn perthynas â hi.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ac mewn perthynas â defnyddio cyfathrebu electronig at unrhyw un o ddibenion y Rheoliadau hyn y gellir ei gyflawni'n electronig–

(a) mae'r term "cyfeiriad"("address") yn cynnwys unrhyw rif neu gyfeiriad a ddefnyddir at ddibenion cyfathrebu o'r fath;

(b) mae cyfeiriadau at hysbysiadau, sylwadau neu ddogfennau eraill, neu at gopïau o'r dogfennau hynny, yn cynnwys cyfeiriadau at y dogfennau hynny neu gopïau ohonynt ar ffurf electronig.

(3) Mae paragraffau (4) i (8) yn gymwys pan fo cyfathrebiad electronig yn cael ei ddefnyddio gan berson er mwyn cyflawni unrhyw ofyniad yn y Rheoliadau hyn i roi unrhyw ddatganiad, hysbysiad neu ddogfen arall i unrhyw berson arall ("y derbynnydd") neu i'w anfon neu i'w hanfon ato.

(4) Cymerir y bydd y gofyniad wedi'i gyflawni pan fo'r hysbysiad neu'r ddogfen arall a drosglwyddir drwy gyfrwng y cyfathrebiad electronig-

(a) yn un y gall y derbynnydd ei gyrchu neu ei chyrchu;

(b) yn ddarllenadwy ym mhob manylyn o bwys; ac

(c) yn ddigon parhaol fel bod modd cyfeirio ato neu ati yn nes ymlaen.

(**4**) 2000 p.7.

(5) Ym mharagraff (4), ystyr "yn ddarllenadwy ym mhob manylyn o bwys" yw bod yr wybodaeth a geir yn yr hysbysiad neu'r ddogfen arall ar gael i'r derbynnydd o leiaf i'r un graddau â phe bai wedi ei hanfon neu ei rhoi drwy gyfrwng dogfen ar ffurf brintiadwy.

(6) Os caiff y derbynnydd y cyfathrebiad electronig y tu allan i'w oriau busnes, cymerir ei fod wedi'i gael ar y diwrnod gwaith nesaf; ac, at y diben hwn, ystyr "diwrnod gwaith" yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn ŵyl y Banc nac yn ŵyl gyhoeddus arall.

(7) Bydd gofyniad yn y Rheoliadau hyn i unrhyw ddogfen fod yn ysgrifenedig wedi'i gyflawni pan fo'r ddogfen honno yn bodloni'r meini prawf ym mharagraff (4), ac mae "ysgrifenedig" ac ymadroddion cytras i'w dehongli yn unol â hynny.

(8) Caniateir cydymffurfio â gofyniad yn y Rheoliadau hyn i anfon mwy nag un copi o ddatganiad neu ddogfen arall drwy anfon un copi yn unig o'r datganiad neu'r ddogfen arall o dan sylw a hynny ar ffurf electronig.

**Y rheoliadau penodol sy'n gymwys mewn achosion penodol**

**3.**—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys pan fo'r awdurdod cyfarwyddo yn ystyried rhoi neu pan fo wedi rhoi cyfarwyddyd o dan unrhyw un o'r darpariaethau canlynol–

(a) adran 321(3) o'r brif Ddeddf;

(b) paragraff 6(6) o Atodlen 3 i'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig; neu

(c) paragraff 6(6) o'r Atodlen i'r Ddeddf Sylweddau Peryglus.

(2) Mae rheoliad 4 yn gymwys i bob cynrychiolydd penodedig.

(3) Mae rheoliadau 5 i 14 yn gymwys o ran achos lle mae cynrychiolydd penodedig wedi'i benodi o dan–

(a) adran 321(5) o'r brif Ddeddf;

(b) paragraff 6A(1) o Atodlen 3 i'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig; neu

(c) paragraff 6A(1) o'r Atodlen i'r Ddeddf Sylweddau Peryglus.

**Swyddogaethau cynrychiolydd penodedig**

**4.**—(1) Swyddogaeth gyntaf cynrychiolydd penodedig yw cynrychioli buddiannau'r person yr effeithir arno drwy wneud y canlynol–

(a) derbyn cyfarwyddiadau gan y person yr effeithir arno cyn cael copïau o dystiolaeth gaeedig bosibl;

(b) cyflwyno sylwadau ysgrifenedig ynghylch a ddylid rhoi cyfarwyddyd; ac

(c) mewn perthynas â gwrandawiad a gynhelir yn unol â rheoliad 10–

(i) ymdrin â materion rhagarweiniol,

(ii) gwneud argymhellion, a

(iii) croesholi tystion.

(2) Ail swyddogaeth y cynrychiolydd penodedig yw cynrychioli buddiannau'r person yr effeithir arno drwy wneud y canlynol–

(a) os penodwyd cynrychiolydd penodedig o dan–

(i) adran 321(6) o'r brif Ddeddf;

(ii) paragraff 6A(2) o Atodlen 3 i'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig; neu

(iii) paragraff 6A(2) o'r Atodlen i'r Ddeddf Sylweddau Peryglus,

derbyn cyfarwyddiadau gan y person yr effeithir arno cyn cael copïau o dystiolaeth gaeedig;

(b) ymdrin â materion rhagarweiniol o ran tystiolaeth gaeedig mewn perthynas ag ymchwiliad lleol;

(c) gwneud argymhellion neu groesholi tystion, o ran tystiolaeth gaeedig, mewn ymchwiliad lleol; ac

(ch) bod yn bresennol mewn ymweliadau â safleoedd.

(3) Trydedd swyddogaeth cynrychiolydd penodedig yw sicrhau bod y copïau o'r dystiolaeth gaeedig neu'r dystiolaeth gaeedig bosibl yn cael eu dychwelyd i'r person a'u darparodd cyn gynted ag y bo'n ymarferol –

(a) ar ôl i'r awdurdod cyfarwyddo roi hysbysiad o dan reoliad 14 nad yw'n bwriadu rhoi cyfarwyddyd;

(b) ar ôl i'r ymchwiliad lleol, y mae'r dystiolaeth gaeedig yn ymwneud ag ef, ddod i ben; neu

(c) ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu'r cynrychiolydd penodedig na fydd unrhyw ymchwiliad lleol, y mae'r dystiolaeth gaeedig yn ymwneud ag ef, yn cael ei gynnal,

p'un bynnag yw'r olaf.

(4) Pedwaredd swyddogaeth cynrychiolydd penodedig yw gwneud ceisiadau i'r llys ynghylch unrhyw un o swyddogaethau eraill y cynrychiolydd penodedig.

(5) At ddibenion unrhyw un neu rai o'r swyddogaethau, caiff y cynrychiolydd penodedig drafod unrhyw fater sy'n ymwneud â'r dystiolaeth gaeedig neu'r dystiolaeth gaeedig bosibl–

(i) â'r person sydd wedi darparu'r dystiolaeth gaeedig neu'r dystiolaeth gaeedig bosibl i'r awdurdod cyfarwyddo, neu,

(ii) â pherson a bennir yn y cyfarwyddyd, neu berson o unrhyw ddisgrifiad a bennir ynddo.

## Cydnabod archiad am gyfarwyddyd

**5.**—(1) Caiff unrhyw berson ofyn am gyfarwyddyd drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod cyfarwyddo i'r diben hwnnw.

(2) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael archiad am gyfarwyddyd, rhaid i'r awdurdod cyfarwyddo gydnabod mewn ysgrifen bod yr archiad wedi dod i law.

## Cyhoeddusrwydd

**6.**—(1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael archiad am gyfarwyddyd, rhaid i'r awdurdod cyfarwyddo roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod archiad wedi dod i law a hynny yn y modd a ragnodir gan y rheoliad hwn.

(2) Yn achos archiad sy'n ymwneud â chais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad–

(a) sy'n gais Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol y mae datganiad amgylcheddol yn dod gydag ef;

(b) nad yw'n cydweddu â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal y mae'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef wedi'i leoli ynddi; neu

(c) a fyddai'n effeithio ar hawl dramwy y mae Rhan 3 o'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**5**)(hawliau tramwy cyhoeddus) yn gymwys iddi,

rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i'r archiad yn y modd a bennir ym mharagraff (3).

(**5**) 1981 p.69. Gwnaed diwygiadau perthnasol gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, adran 51 ac Atodlen 5, Rhan I.

(3) Rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i archiad sy'n dod o dan baragraff (2) ("archiad paragraff (2)") gan roi hysbysiad–

(a) drwy ei arddangos ar y safle mewn un man o leiaf ar neu wrth ymyl y tir y mae'r cais am ganiatâd cynllunio yn ymwneud ag ef am gyfnod nad yw'n llai na 2 wythnos; a

(b) drwy hysbyseb leol am 2 wythnos yn olynol ac yn gyfoes â'r cyfnod hysbysu yn is-baragraff (a).

(4) Yn achos archiad am gyfarwyddyd nad yw'n archiad paragraff (2), os datblygiad mawr yw'r datblygiad arfaethedig y mae'r archiad yn ymwneud ag ef, rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i'r archiad gan roi hysbysiad–

(a) drwy ei arddangos ar y safle mewn un man o leiaf ar neu wrth ymyl y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef am gyfnod nad yw'n llai na 2 wythnos neu drwy gyflwyno'r hysbysiad i unrhyw berchennog neu feddiannydd cyffiniol; a

(b) drwy hysbyseb leol am 2 wythnos yn olynol ac yn gyfoes â'r cyfnod hysbysu yn is-baragraff (a).

(5) Mewn achos nad yw paragraff (2) na pharagraff (4) yn gymwys iddo, rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i archiad am gyfarwyddyd gan roi hysbysiad–

(a) drwy ei arddangos ar y safle mewn un man o leiaf ar neu wrth ymyl y tir y mae'r cais am ganiatâd cynllunio yn ymwneud ag ef am gyfnod nad yw'n llai na 2 wythnos; neu

(b) drwy gyflwyno'r hysbysiad i unrhyw berchennog neu feddiannydd cyffiniol.

(6) Rhaid i hysbysiad a roddir o dan baragraffau (3), (4) neu (5)–

(a) nodi bod archiad am gyfarwyddyd wedi'i wneud;

(b) nodi bod modd cyflwyno i'r awdurdod cyfarwyddo, yn y cyfeiriad a bennir yn yr hysbysiad, sylwadau ysgrifenedig ynghylch a ddylai cyfarwyddyd gael ei roi; a

(c) pennu'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i unrhyw sylwadau o'r fath gael eu cyflwyno i'r awdurdod cyfarwyddo (sef dyddiad nad yw'n llai na 2 wythnos o'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad).

(7) Pan fo'r hysbysiad, heb fod unrhyw fai ar yr awdurdod cyfarwyddo nac unrhyw fwriad ganddo i wneud hynny, wedi'i dynnu ymaith, wedi'i guddio neu wedi'i ddifwyno cyn bod y cyfnod o 2 wythnos y cyfeirir ato ym mharagraff (3)(a), (4)(a)(i) neu (5)(a) wedi treiglo, rhaid ymdrin â'r awdurdod cyfarwyddo fel un sydd wedi cydymffurfio â gofynion y paragraff perthnasol os yw wedi cymryd camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad ac, os oes angen, i roi hysbysiad newydd yn ei le.

(8) Yn y rheoliad hwn–

mae i'r term "cais Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol" yr ystyr a roddir i "EIA application" yn rheoliad 2 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999(**6**), ac ystyr "datganiad amgylcheddol" ("environmental statement") yw datganiad y mae'r ceisydd yn cyfeirio ato fel datganiad amgylcheddol at ddibenion y Rheoliadau hynny;

ystyr "datblygiad gwastraff" ("waste development") yw unrhyw ddatblygiad gweithredol a gynlluniwyd i gael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion trin, storio, prosesu neu waredu gwastraff neu ddeunyddiau gwastraff, neu newid defnydd yn sylweddol iddynt;

ystyr "datblygiad mawr" ("major development") yw datblygiad sy'n cynnwys unrhyw un neu fwy o'r canlynol–

(a) cloddio am fwynau a'u gweithio neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gweithio mwynau;

(b) datblygiad gwastraff;

(**6**) O.S. 1999/293 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i"r offeryn hwn.